



PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019 am 5.00 pm ym
The Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd H Boggis
Y Cyngorydd J Bonetto	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd A Chapman	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd A Davies-Jones	Y Cyngorydd G Davies
Councillor J Davies	Y Cyngorydd L De Vet
Y Cyngorydd M Diamond	Y Cyngorydd J Elliott
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd M Forey
Y Cyngorydd A Fox	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd L Hooper	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd G Hughes	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd M Fidler-Jones
Y Cyngorydd G Jones	Councillor K Jones
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd D Macey
Y Cyngorydd A Morgan	Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd S Pickering	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S. Rees-Owen	Y Cyngorydd S Rees
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Smith	Y Cyngorydd G Stacey
Y Cyngorydd E Stephens	Y Cyngorydd G Thomas
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd R Turner
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd M Weaver
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd G Williams	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd C Willis	Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

Mr A Wilkins, Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol

93 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Calvert, G. Holmes, M. Tegg, T. Leyshon, S. Powell, E. Webster, S. M. Evans, L. Jones, J. Williams a P. Howe.

94 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda – Adroddiadau Blynyddol Deddf Eglwys Cymru 2017/18:-

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan – “Mae dyletswydd arna i i gymeradwyo/gwrthod ceisiadau am gyllid o Gronfa Deddf Eglwys Cymru yn rhinwedd fy swydd yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Y Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Norris – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Fidler-Jones – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Elliott – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering – "Mae Sefydliad Cymunedol rwy'n ymwneud ag ef wedi elwa o'r grant o'r blaen"
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. R. Davies – "Rwy'n Ysgrifennydd i Eglwys Blaen-cwm sydd wedi derbyn arian o'r blaen."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – "Fy ngwraig yw Trysorydd Neuadd Bentref Gymunedol Trehafod sydd wedi gwneud cais am grant o'r blaen."
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Treeby – "Rwyf ar Bwyllgor Nos Galan sydd wedi gwneud cais am gyllid o'r blaen."

Mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda – Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor Lleol

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 23 Tachwedd 2018. "Caf i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2019-2020 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid."

95 CYFLWYNIAD

Derbyniodd y Cyngor Gadlywydd Adain S. Rowley ac Awyr-Lefftenant A. Cole, a gyflwynodd ffotograff i'r Cyngor yn dilyn rhoi Rhyddid Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a holl bersonél lleol sy wedi gwasanaethu yn y Llu Awyr Brenhinol, ddoe a heddiw, ar 2 Fehefin, 2018. Croesawodd y Maer y cyflwyniad ar ran y Cyngor a rhoddodd blac Rhyddid y Fwrdeistref i'r Swyddogion, gan ddathlu 80 mlynedd ers sefydlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a chanmlwyddiant sefydlu'r Llu Awyr Brenhinol.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau cadarnhaol ar y cyflwyniad, yr orymdaith a aeth yn ei blaen a'r achlysur a gynhaliwyd i ddathlu yn ystod mis Mehefin ym Mharc Coffa Ynysangharad. Dywedon nhw hefyd eu bod yn gwerthfawrogi gwaith yr Awyrlu a phob aelod o'r lluoedd arfog ar ran y bobl.

96 CYHOEDDIADAU

- Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering ddeiseb i'r Maer mewn perthynas â mesurau tawelu traffig yn Nhrem Hyfryd, Ynys-y-bŵl.
- Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Cox ddeiseb i'r Maer (ar ran Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams) mewn perthynas â mesurau tawelu traffig a diogelwch cerddwyr ar Heol y Cymer, y Porth.
- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman deyrnged deimladwy i'r diweddar Steffan Lewis AC. Dywedodd y Cynghorydd Jarman wrth y Cyngor ei bod hi'n falch ac yn drist o gael talu'r deyrnged yma, gan nodi bod Mr Lewis yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru er 2016, ond bod llawer ohonyn nhw'n ei adnabod ers ei arddegau. Soniodd hi am ei feddwl craff, ei ysbrydoliaeth a'i reddf, gan ddweud ei fod yn ddyn blaengar. Ychwanegodd at hynny trwy ddweud bod parch tuag ato ar draws yr holl bleidiau, ac y tu allan i fyd gwleidyddiaeth, ac roedd yn ŵr, tad, mab a brawd cariadus, a adawodd ar ei ôl ei wraig Shona a'i fab 3 oed, Celyn. Soniodd y Cynghorydd Jarman am ddiodefaint Mr Lewis, ei ddewrder a pha mor benderfynol ydoedd trwy gydol ei salwch, a bod hyn wedi rhoi dewrder i lawer o bobl eraill. Dywedodd hi am y gwahaniaeth a wnaeth Mr Lewis i lawer o bobl, gan ychwanegu at hynny trwy ddweud ei fod yn arwr i sawl un ac wedi bod yn gefn iddyn nhw, ond byddai bob amser yn cael ei gofio fel y bachgen o Went. Daeth y Cynghorydd Jarman â'i theyrned i ben drwy adrodd cerdd gan Helen Lowrie Marshall, 'After Glow'.

Talodd yr Arweinydd deyrnged hefyd i Mr Lewis AC, ac yn dilyn hynny safodd Aelodau am funud o dawelwch, er parch i Mr Lewis.

97 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar

28 Tachwedd 2018 yn gofnodion cywir yn dilyn y newid canlynol:

- Cofnod Rhif 82 (5) - Dileu cyfeiriad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol James at Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn ei gwestiwn ategol.

98 DATGANIADAU

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Brexit

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad i Aelodau mewn perthynas â hynt a helynt Brexit, gan ganolbwyntio ar y paratodau mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu gwneud yn hytrach na'r trafodaethau yn San Steffan. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfarfod Sector Llywodraeth Leol yr oedd wedi mynd iddo gyda Gweinidog Brexit Cymru, Prif Weinidog Cymru a phartneriaid eraill gan gynnwys yr Heddlu a'r GIG, ac ychwanegodd fod y cyfarfod wedi canolbwyntio ar y sefyllfaoedd posibl a allai godi o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr heriau posibl i'w hwynebu, nid yn unig o ran yr economi, ond o ran gwasanaethau o ddydd i ddydd. Cyfeiriwyd at gynllunio sifil wrth gefn a'r ymdrechion i gynllunio ar gyfer sefyllfa nad oes modd ei rhagweld.

Parhaodd yr Arweinydd trwy roi gwybod am ymdrechion penodol mewn perthynas â darparu tanwydd a bwyd a'r neges i 'gydweithio' gyda busnesau preifat i liniaru'r effaith, er iddo gydnabod ei fod yn bosibl y byddai'r sefyllfa yn amharu ar waith y Porthladdoedd. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd rhoi sicrwydd i'r cyhoedd nad oedd angen prynu tanwydd neu fwyd ar frys.

O ran y rhagofalon mae'r Awdurdod wedi'u rhoi yn eu lle mewn perthynas â chyflenwi bwyd i ysgolion, cartrefi nyrsio ac ati yn y Fwrdeistref Sirol, rhoddodd wybod bod adolygiad caffael yn cael ei gynnal gyda chyflenwyr yn rhan o'r cynllunio wrth gefn ar gyfer sefyllfa lle byddai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Soniodd yr Arweinydd hefyd am y Fforwm Cydnerthedd Lleol sy'n cwrdd yn rheolaidd, ac yn edrych hefyd ar gynllunio wrth gefn. Aeth yr Arweinydd ati i roi gwybod i Aelodau am gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gyllid i benodi staff ychwanegol i weithio gydag Awdurdodau i'w cynorthwyo ag unrhyw gynlluniau wrth gefn. Dywedodd fod swyddogion wedi bod yn ceisio ymgymryd â'r gwaith hwn ar ben eu gwaith bob dydd tan nawr. Ychwanegodd fod Llywodraeth y DU wedi penodi 1,500 aelod o staff ychwanegol i'w chynorthwyo gyda'r gwaith yma ac roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi 200 o staff ychwanegol, tra nad oedd Awdurdodau Lleol wedi gallu penodi unrhyw staff ychwanegol i'w cynorthwyo. Ychwanegodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am gymorth ychwanegol a'r angen am staff pwrpasol i fod o gymorth a chysylltu â phartneriaid yn y dyfodol.

Mewn perthynas â busnesau, soniodd yr Arweinydd am gronfa cydnerthedd busnes gwerth £7.5 miliwn a oedd ar gael, y gallai busnesau wneud cais iddi am grantiau pe baen nhw'n gallu dangos yr effaith y byddai Brexit yn ei gael ar eu busnes.

Daeth yr Arweinydd a'i ddatganiad i ben trwy gydnabod yr ansicrwydd ynghylch Brexit. Serch hynny, cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru a Llywodraethau Lleol yn bwrw golwg dros bopeth yr oedd modd iddyn nhw ei wneud ac yn ceisio cynllunio er mwyn lliniaru'r heriau yn y dyfodol cymaint â phosibl.

99 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

a) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees i Arweinydd y Cyngor – Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Sut mae'r Cyngor hwn yn cefnogi datblygiadau seilwaith yn ardal gogledd Cwm Cynon?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn ardal Gogledd Cwm Cynon, gan gyfeirio at y cynlluniau i greu ffordd ddeuol ar yr A465. Ychwanegodd fod trafodaethau wedi symud yn eu blaenau yr oedd e'n awyddus i'w datblygu mewn perthynas â ffordd osgoi Aberdâr, yn arwain at gyffordd Croesbychan, i hwyluso cynlluniau Gogledd Porth Cynon. Gwnaeth sylwadau am lobio gan sawl Aelod ynglŷn â'r datblygiad yma. Rhoddodd wybod am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â cham y metro yn y dyfodol i ymestyn y gwasanaeth rheilffyrdd hyd at Hirwaun, a gwnaeth sylwadau ar yr angen i ddatblygu'r seilwaith rheilffyrdd i gefnogi'r datblygiad yma. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y buddsoddiad yn Ystad Ddiwydiannol Tresalem. Daeth yr Arweinydd a'i sylwadau i ben trwy ddweud bod llawer o waith wedi digwydd mewn perthynas ag Aberdâr, a thwnnel Aber-nant y byddai'n hoffi ei ailagor ar y cyd â Thwnnel y Rhondda.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees:

Croesawodd y Cyngorydd Rees ffordd osgoi Llwydcoed a gofynnodd am ragor o fanylion am ddatblygiad Unedau Busnes Tresalem.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwaith sy'n cael ei gynnal yn Aberdâr gan gadarnhau bod y Cyngor wedi ymrwymo i'r datblygiad. Cyfeiriodd hefyd at y cyfleoedd ariannu drwy'r gronfa ymyrraeth trafnidiaeth leol gyda cheisiadau wedi'u cyflwyno ar draws yr Awdurdod. O ran yr Unedau Busnes, dywedodd yr Arweinydd fod y rhain yn dibynnu ar ganiatâd cynllunio, ond nododd y byddai 21 o bosibl yn cael eu datblygu. Esboniodd y byddai'r unedau yn unedau cychwynnol ar gyfer busnesau y mae'r galw amdanyn nhw ar draws y Fwrdeistref Sirol yn uwch na'r hyn y mae modd ei fodloni ar hyn o bryd. Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod busnesau sydd â diddordeb yn yr unedau eisoes wedi cysylltu ag ef.

b) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i Arweinydd y Cyngor – Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad am waith Tasglu'r Cymoedd?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod Tasglu'r Cymoedd wedi'i sefydlu ers 18 mis / 2 flynedd ac wedi arwain at lefel uchel o ymgysylltiad cadarnhaol â chymunedau a rhanddeiliaid mewn meysydd buddsoddi allweddol. Ychwanegodd fod y Tasglu yn defnyddio dull gwahanol i fentrau

blaenorol a oedd yn canolbwyntio ar y cymoedd, trwy gyflwyno gwelliannau pwrpasol, go iawn i gymunedau sy'n benodol i'r ardal. Cyfeiriodd at bolisiâu cenedlaethol a'r angen i'r rhain newid. Cyfeiriodd at ddatblygiad canolfannau trwy brosiect Porth y Cymoedd a'r gwerth cyfalaf sylweddol yn sgil y prosiectau datblygu cynigion.

Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H. Boggis:

Croesawodd y Cynghorydd Boggis cyfeiriad yr Arweinwyr at brosiect Pwrth Darganfod a gofynnodd am yr wybodaeth ddiweddaraf am statws Parc Gwledig Cwm Dâr yn un o gyrchfannau'r cynllun yma.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Cytunodd yr Arweinydd fod Parc Gwledig Cwm Dâr yn enghraifft o sut y gallai parc fod o fudd i ardal leol. Cadarnhaodd mai'r ddau brosiect a gafodd eu dewis fel prosiectau Pwrth Darganfod oedd Parc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad. Ychwanegodd fod £7m ar gael ar draws y rhanbarth ar gyfer y prosiect, er nad oedd modd iddo roi union ffigur ar nifer y prosiectau a oedd yn cael eu datblygu ledled y rhanbarth. Siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am lwyddiant Parc Gwledig Cwm Dâr a oedd yn boblogaidd gydag ymwelwyr, trwy eu defnydd o'i faes gwersylla a'i faes carafanau, a'r potensial i wella'r darpariaethau sydd ar gael ymhellach a'u hymestyn. Rhoddodd yr Arweinydd wybod am y galw am gynigion pellach mewn perthynas â Pharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad, ac ychwanegodd y byddai diweddariadau ynglŷn â'r cynigion yma yn cael darparu gan yr Aelod perthnasol o'r Cabinet pan fyddai'n briodol.

c) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddiogelu a gwella strwythurau allweddol ar draws Cwm Rhondda?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod strwythurau allweddol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn destun buddsoddiad a rhestrodd y canlynol i Aelodau:

- Wal gadw Pen-rhys
- Wal afon Pont-y-gwaith
- Wal gadw Heol Pontypridd, Y Porth

Parhaodd yr Arweinydd trwy siarad am y cynlluniau buddsoddi a dylunio isod:

- Pont-droed Brook Street (Ystrad)
- Pont Sant Alban (Tynewydd)
- Pont Britannia

Daeth yr Arweinydd â'i sylwadau i ben trwy ychwanegu bod prosiectau gwella ac uwchraddio seilwaith yn cael eu hystyried ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis:

Gofynnodd y Cyngorydd Lewis i'r Arweinydd ddarparu diweddariad mewn perthynas â Phont Pontrhondda.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â Phont Pontrhondda a dweud bod y bont droed dros dro bellach yn ei le a'r prif strwythur bellach wedi cael ei gymryd o'r safle. Ychwanegodd fod peth oedi wedi bod o ran yr amserlen oherwydd cyflwr y tir, a bod disgwyl i'r prosiect ddod i ben ym mis Mai 2019.

d) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Pickering i Arweinydd y Cyngor – Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Sut y gall trigolion Ynys-y-bŵl elwa o'r cyfleusterau a gafodd eu datblygu drwy'r canolfannau technoleg ym Mhontypridd a Threfforest fel y'u cyhoeddwyd gan Dasglu'r Cymoedd yn 2017."

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod cyllid o £24m wedi'i gyflwyno ar draws y rhanbarth ar gyfer nifer o brosiectau ac roedd yr Arweinydd yn obeithiol y byddai ardal ehangach Pontypridd yn cael ei nodi yn y prosiectau yma. Soniodd am y buddsoddiad newydd yng Nghanolfan Dyffryn Taf a Threfforest yn ogystal â'r buddsoddiad gan fusnesau preifat, gan wneud sylwadau ar ddatblygiad swyddfa'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfeiriodd yr Arweinydd at brosiect y canolfannau technoleg a'r cynnig presennol sy'n cael ei ddwyn ymlaen, gan ddweud bod pensaer wedi'i gcontractio er mwyn dangos sut y gallai'r ganolfan edrych. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r canolfannau hefyd yn cyflwyno swyddi o safon uchel i'r Fwrdeistref Sirol a hefyd yn darparu cyfleoedd i fusnesau sydd newydd gychwyn, ac ar gyfer y busnesau hynny nad oes modd iddyn nhw gael eu llety eu hunain, gan ddarparu hyblygrwydd a ffordd o ddatblygu. Soniodd yr Arweinydd am y posibilrwydd y byddai 7,000 o swyddi ar gael a chadarnhaodd y byddai'r Cabinet yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl i hynny gael ei sicrhau.

e) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams:

"Ydy'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu erioed wedi craffu ar ganlyniadau ac effaith prosiectau a gwasanaethau sy wedi'u datblygu yn rhan o raglen RhCT Gyda'n Gilydd, a'u gwerthuso?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams:

Dywedodd y Cyngorydd Adams fod y Pwyllgor Craffu wedi derbyn gwybodaeth o sawl ffynhonnell mewn perthynas â phrosesau RhCT Gyda'n Gilydd, gan gynnwys diweddariad ar Strategaeth Llety'r Cyngor, a chraffu adfyfyriol ar benderfyniadau i newid gwasanaethau. Cyflwynwyd gwybodaeth

hefyd gan yr Aelod o'r Cabinet yn rhan o sesiynau ymgysylltu ffurfiol â'r pwyllgor craffu perthnasol.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan:

Gofynnodd y Cyngorydd Fychan a fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cytuno y dylid craffu ar brosiect RhCT Gyda'n Gilydd mewn perthynas â throsglwyddo ased Canolfan Gelf y Miwni, Pontypridd yn fater brys i ofyn ai trosglwyddo oedd y peth iawn i'w wneud, i edrych ar y penderfyniad i drosglwyddo ac i graffu ar y gwahanol fodelau sydd ar gael cyn i'r Cyngor ymrwymo i wneud yr un camgymeriad eto.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams:

Dywedodd y Cyngorydd Adams fod y Miwni yn gwmni cyfyngedig preifat gydag ystod o bartneriaid cymunedol. Ychwanegodd pe bai aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn dymuno cynnwys hyn ar y rhaglen waith yn y dyfodol, y byddai'n fodlon blaenoriaethu'r mater yma.

RHAGLEN WAITH

100 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR

Dywedodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wrth Aelodau am y diweddariadau i Raglen Waith y Cyngor a chadarnhaodd y byddai cyfarfod y Cyngor a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror yn cael ei ganslo, gyda chytundeb y Maer, oherwydd prinder busnes i'w drafod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor cael ei gynnal ar 6 Mawrth, 2019.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

101 CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Yn ei adroddiad, ceisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sêl bendith Cynghorwyr ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2018; a **PHENDERFYNWYD** –

1. Cymeradwyo a nodi Adroddiad Blynyddol Cronfa Ddeddf Eglwys Cymru a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/2018 (Atodiad 1 yr adroddiad);
2. Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth mewn perthynas â Chronfa Deddf Eglwys Cymru (Atodiad 2 yr adroddiad);
3. Nodi cynnwys adroddiad yr Archwilydd Allanol (Atodiad 3 yr adroddiad).

102 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR LLEOL

Yn unol â Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yng Nghymru fel sydd wedi'u pennu gan reoliadau a wnaed o dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992 (fel sy wedi'i mewnosod gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 2012) a chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ddwy set o reoliadau (fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad) ar 26 Tachwedd, 2013, ceisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen gymeradwyaeth Aelodau i weithredu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr, 2019.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

1. Nodi'r newidiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (“y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig”) gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Ddiwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019 (y “Rheoliadau Diwygio”) a ddaeth i rym ar 9 Ionawr 2019, yn dilyn cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y sesiwn llawn ar 8 Ionawr 2019;
2. Nodi canlyniad y broses ymgynghori a gynhaliodd y Cyngor ar y gostyngiadau lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer 2019/20;
3. Gweithredu darpariaethau'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig ac unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r rheoliadau hynny oherwydd y Rheoliadau Diwygio fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn unol â'r gostyngiadau lleol y gall y Cyngor eu gweithredu fel sydd wedi'u nodi yn (4) isod;
4. Cadarnhau'r canlynol fel gostyngiadau lleol i'w gweithredu yn rhan o Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor fel sydd wedi'u nodi yn Rhan 5 o'r Rheoliadau gofynion Rhagnodedig:
- 5.

Rhannau yn ôl Disgresiwn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (<i>Rhan 5 – Materion eraill mae rhaid eu cynnwys yng nghynllun awdurdod</i>)	Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Isafswm Gofyniad)	Gostyngiad i'w weithredu sydd wedi'i argymhell
<p>Y modd i gynyddu cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos sy'n cael ei roi i ymgeiswyr lle maen nhw wedi derbyn gostyngiad Treth y Cyngor sydd i ddod i ben, gan eu bod nhw wedi peidio derbyn budd-daliadau cymwys o ganlyniad i ddychwelyd i'r gwaith, cynyddu'u horiau gwaith, neu dderbyn mwy o enillion.</p> <p><i>Rheoliad 32 (3) paragraff (33) o Atodlen 1 a Rheoliad 33 (3), paragraff (35) a (40) o Atodlen 6.</i></p>	4 Wythnos	<p><u>Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o 4 wythnos sydd wedi'i nodi ym mharagraff (33) o Atodlen 1 yn berthnasol, a <u>Y rheiny nad ydyn nhw'n</u></p>

		<u>Bensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o 4 wythnos sydd wedi'i nodi ym mharagraff (35) a (40) o Atodlen 6 yn berthnasol
Y modd i ôl-ddyddio cais am Ostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer ceisiadau hwyr cyn y cyfnod safonol o 3 mis cyn i'r hawliad gael ei wneud. <i>Rheoliad 34 (4) a pharagraff (3) a (4) o Atodlen 13.</i>	3 Mis	<u>Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod o 6 mis yn berthnasol. <u>Y rheiny nad ydyn nhw'n</u> <u>Bensiynwyr:</u> Bydd cyfnod o 6 yn berthnasol.
Y modd i ddiystyru mwy na'r incwm wythnosol statudol o £10 sydd wedi'i dderbyn mewn perthynas â Phensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw (i'w ddiystyru wrth gyfrifo incwm y ceisydd); <i>Rheoliad 34 (5), paragraffau 1(a) ac 1(b) Atodlen 4 a pharagraffau 20(a) ac 20(b) o Atodlen 9</i>	£10	<u>Pensiynwyr:</u> Gwerth cyfan unrhyw bensiwn a nodwyd ym mharagraffau 1 (a) a (b), Atodlen 4 i'w ddiystyru. <u>Y rheiny nad ydyn nhw'n</u> <u>Bensiynwyr:</u> Gwerth cyfan unrhyw bensiwn a nodwyd ym mharagraffau 20 (a) a (b), Atodlen 9 i'w ddiystyru.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT

103 LLWYBRAU'R FRO DAU: CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY RHONDDA CYNON TAF 2019-2029

Yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ei adroddiad i Aelodau gan geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynllun Llwybrau'r Fro Dau: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf, sy wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet.

PENDERFYNODD Aelodau fabwysiadu cynllun 'Llwybrau'r Fro Dau: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf 2019-2029'.

(D.S. ymatalodd Arweinydd y Cyngor rhag pleidleisio mewn perthynas â'r eitem gan ei fod wedi gadael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem yn cael ei thrafod).

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL

104 PENDERFYNIADAU BRYD O DAN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), adroddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol am y penderfyniadau brys a ddygwyd ymlaen trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol yn ystod y cyfnod Hydref–Rhagfyr 2018 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

105 NEWID AELODAETH

Yn unol â'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng Nghofnod Rhif 10(2) o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23 Mai 2018, dywedodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol ei fod wedi derbyn hysbysiad gan Grŵp Plaid Cymru o newidiadau i'w aelodaeth o Gydbwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi y bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens ar y Pwyllgor;
2. Y dylai gohebiaeth gael ei hanfon at Gyngor Merthyr Tudful i'w hysbysu ynglŷn â'r newid yma i aelodaeth y Pwyllgor.

106 RHYBUDD O GYNNIG

1. Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Forey, L.M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S. M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R. W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. H. Williams, T. Williams, C. J. Willis and R. Yeo gan y Swyddog Priodol yn unol â Rheol 10.1(b), Rheolau Gweithredu'r Cyngor:-

Mae'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael â thrafodaethau Brexit yn peri pryder mawr.

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi darparu amcangyfrif o £4bn o gyllid strwythurol i Gymru er 2000, gyda rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - sef y rhanbarth y mae'r Cyngor yma'n rhan ohono - yn gymwys i dderbyn dros £2bn o gymorth gan yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2014 a 2020.

Yn ddiweddar, mae prosiectau mawr yn Rhondda Cynon Taf, fel ailddatblygu Canolfan Siopa Dyffryn Taf (£10 miliwn) ac unedau busnes Coed Elái a Thresalem (£5.158 miliwn ar y cyd) wedi elwa o gyllid Ewropeaidd, tra cafodd £119 miliwn ei ddyrannu i Metro De Cymru i ddatblygu Cam II y prosiect. Mae £78.4 miliwn o'r arian yma wedi'i ddyrannu ar gyfer gwella rheilffyrdd yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu pa mor hanfodol yw arian yr Undeb Ewropeaidd i gymunedau Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Er bod sicrwydd y bydd prosiectau sydd eisoes wedi cael eu hariannu yn dal i fynd yn eu blaenau, mae yna ansicrwydd mawr ynglŷn â sut y bydd prosiectau allweddol yn cael eu hariannu yn y dyfodol hirdymor. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ar draws y pedair gwlad, ond nid oes sicrwydd na fydd Cymru ar ei cholled ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn nodi diystyrwch Llywodraeth y DU o Gymru, sydd i'w weld yn ei phenderfyniad i wrthod â chefnogi prosiectau allweddol fel Morlyn Llanw Abertawe a thrydaneiddio prif reilffordd De Cymru.
- Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i dderbyn pob ceiniog o'r arian y mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd os/pan fydd unrhyw gytundeb ffurfiol ynglŷn â Brexit a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- Yn gwneud cais i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am sicrwydd y bydd yr arian yma yn cael ei warantu ar ôl 2020, os yw'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(D.S. Gofynnodd Aelodau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru a oedd yn bresennol am gofnodi eu pleidlais dros fabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.)

2. Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R. W. Smith, R. Lewis, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, M Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powderhill, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R.K. Turner, M. Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis and R. Yeo gan y Swyddog Priodol yn unol â Rheol 10.1(b) Rheolau Gweithredu'r Cyngor:-

Yn debyg i Lywodraeth Leol a'r holl wasanaethau cyhoeddus eraill, mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi profi toriadau ariannol sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae hyn wedi digwydd ar yr un pryd â chynnydd er 2014 mewn achosion o droseddau llai cyffredin ond mwy niweidiol, gan arwain at y nifer uchaf o ddynladdiadau yn ystod y degawd diwethaf a chynnydd mawr mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chyllyll.

Yn y Gyllideb ddiweddar, dyrannodd Llywodraeth y DU £160 miliwn i wrthderfysgaeth ond methodd â chyhoeddi unrhyw arian newydd ar gyfer plismona rheng flaen hanfodol. Mae'r dyraniad o £300m ychwanegol gafodd ei gyhoeddi yn Setliad yr Heddlu ym mis Rhagfyr yn ddim mwy nag ymdrech i fwrw'r toriadau gan y Llywodraeth Ganolog i'r cysgod, ac yn trosglwyddo'r baich o ariannu Heddluoedd i gymunedau lleol trwy rymuso Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i godi'r rhan honno o Dreth y Cyngor sy'n cael ei defnyddio ar gyfer plismona. Mae'r grant o £161 miliwn i'w rannu ymhlith y 43 o Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn annigonol, tra bod y grant o £153 miliwn i dalu am y cyfraniad pensiwn yn golygu bod rhaid i'r Heddluoedd gyflenwi diffyg sylweddol, gan fod diffyg cenedlaethol o tua £420 miliwn o safbwynt pensiynau'r heddlu. Mae'r diffyg ariannu digonol yn ddigywilydd, ac yn cynyddu'r pwysau sydd eisoes ar ein Heddluoedd, gan gynnwys Heddlu De Cymru, a bydd yn cynyddu'r baich ar Heddluoedd ledled y wlad, sydd eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol a lleihau eu gweithluoedd.

Yng ngoleuni hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y canlynol wedi digwydd tra bod Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr:

- Mae cyllid yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi'i dorri o tua 20% mewn termau real rhwng 2010 a 2017.
- Mae cyllid y Llywodraeth Ganolog i'r Heddluoedd wedi'i dorri o tua thraean mewn termau real er 2010, gan olygu bod bron i 22,000 yn llai o swyddogion yr Heddlu.
- Dydy ymrwymiad Llywodraeth y DU yn yr adolygiad o wariant yn 2015 i "warchod yr arian sy'n cael ei wario ar yr Heddlu ar y cyfan, mewn termau real", ddim wedi cael ei fodloni gan fod y cyllid sy'n dod o'r Llywodraeth Ganolog wedi gostwng mewn termau real. Mae unrhyw setliadau gwastad ar gyfer heddluoedd unigol yn dibynnu'n llwyr ar godi Treth y Cyngor yn lleol, sy'n ddibynnol ar gyfyngiadau demograffig.
- Mae morâl ac amodau o fewn heddluoedd wedi dirywio'n ddifrifol. Darganfu arolwg Tâl ac Amodau Ffederasiwn yr Heddlu 2018 fod 7.8% o'r 27,000 o ymatebwyr wedi ymgymryd ag ail swydd (y nifer uchaf erioed), fod bron i 45% yn poeni am eu cyllid personol, ac nad yw 87.9% yn teimlo eu bod yn cael eu talu'n deg yn dilyn gostyngiad o 18% yn eu tâl ers 2009/10.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i gyfleu'r angen i ariannu plismona rheng flaen yn briodol ar frys, trwy ddatrysiaid ariannol hirdymor sy'n gwrthdroi'r toriadau difrifol ac yn darparu'r rhyddhad

sydd wir ei angen ar Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

- Gofyn am adolygiad brys o'r fformiwla ariannu gyfredol i ddatrys y trefniant presennol, sy'n amlwg yn ddiffygiol, sy'n golygu na all Heddlu De Cymru dderbyn cyllid Prifddinas.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Maer, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, H. Fychan, D. Grehan, A. Cox, J. Williams, M. Weaver, S. Rees-Owen, J. Davies, K. Morgan, J. Cullwick, D. Macey, E. Webster, S. M. Evans, A. Chapman ac E. Stephens.

Mewnosodiad ar ddiwedd y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol:

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

"Ysgrifennu at Brif Weinidog y DU, yr Ysgrifennydd Cartref ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn i bwerau Plismona llawn gael eu datganoli i Gymru fel y maen nhw yn yr Alban a Gogledd Iwerddon."

Yn dilyn trafodaeth, bwriwyd pleidlais mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig Diwygiedig - nid oedd y bleidlais yma wedi llwyddo. Yn dilyn bwrw pleidlais mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol, a oedd wedi llwyddo, **PENDERFYNWYD** - mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol sy'n sefyll yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Forey ac L. M. Adams.

(D.S.

- Gofynnodd Aelodau Plaid Cymru a oedd yn bresennol am gofnodi eu pleidlais aflwyddiannus dros ddiwygio'r Rhybudd o Gynnig.
- Gofynnodd Aelodau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru a oedd yn bresennol am gofnodi eu pleidlais o blaid y Rhybudd o Gynnig.)

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**